22 Medi 2025

Annwyl

**Cais 25100**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 27 Awst. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Os gwelwch yn dda, rhestrwch bob toriad diogelu data dros y pedair blynedd diwethaf, ers 1 Awst 2021.

Ar gyfer pob un, hoffwn i chi gynnwys

a/ disgrifiad o'r pwnc
b/ a gyfeiriwyd y toriad at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth?
c/ a gymerwyd unrhyw gamau yn erbyn yr unigolyn/unigolion oedd yn gyfrifol?

**Ein hymateb**

Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'n costio mwy na'r terfyn addas a nodir yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ystyried eich cais. Y terfyn addas sydd wedi'i bennu ar gyfer llywodraeth ganolog yw £600. Dyma amcangyfrif o'r gost pe bai'n cymryd dros 24 awr i nodi a oes gennym ni'r wybodaeth, chwilio am yr wybodaeth, dod o hyd i'r wybodaeth a chael gafael ar yr wybodaeth honno. Gweler rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw’r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Atodiad 1**

Mae fy nehongliad o'ch cais a'r cyfrifiad o'r amser y bydd yn ei gymryd wedi'u nodi isod. Rwyf hefyd wedi awgrymu rhai ffyrdd o fireinio'ch cais ichi eu hystyried.

Rydych chi wedi gofyn am restr o 'bob toriad diogelu data dros y pedair blynedd diwethaf, ers 1 Awst 2021'. Rwyf wedi dehongli'r cais cyntaf fel pob tor diogelwch data personol sy'n disgyn i'r categorïau a ganlyn. Mae chwiliad cychwynnol o'n cofnodion rhwng mis Awst 2021 a mis Mawrth 2025 wedi nodi tua 550 o achosion o dor diogelwch data.

| Math | Natur y digwyddiad |
|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, o fewn safleoedd diogel y Llywodraeth |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, y tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth |
| III | Gwaredu, mewn modd anniogel, offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol |
| IV | Datgelu heb awdurdod |
| V | Arall |

Mae eich ail gais yn gofyn am 'ddisgrifiad o'r pwnc'. Fy mwriad yw defnyddio'r categori perthnasol uchod fel disgrifiad o bob achos o dor diogelwch data.

Yn eich cais olaf, rydych chi'n gofyn 'a gymerwyd unrhyw gamau yn erbyn yr unigolyn/unigolion oedd yn gyfrifol?' Rwyf wedi dehongli 'unrhyw gamau' fel camau swyddogol (camau disgyblu a gymerwyd gan yr Adran Adnoddau Dynol) a chamau answyddogol (camau a gymerwyd gan yr Is-adran neu'r rheolwr llinell e.e. cyfarfod i drafod yr achos o dor diogelwch data â'r rheolwr llinell neu'r dirprwy gyfarwyddwr, y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant pellach, rhybudd answyddogol a roddwyd i'r unigolyn a gyflawnodd y tor diogelwch data ac ati).

Caiff cofnodion o gofnodion camau disgyblu swyddogol eu cadw gan adran Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru a chaiff cofnodion answyddogol eu cadw'n lleol gan yr Is-adran a / neu'r rheolwr llinell.

Rwy'n amcangyfrif y bydd yn cymryd 5 munud ar gyfer pob achos o dor diogelwch data i gael gafael ar yr wybodaeth ar gyfer y cais hwn. Mae hyn yn cynnwys:

Nodi'r tor diogelwch data, yr unigolyn sy'n gyfrifol a'i reolwr llinell.
Cysylltu â rheolwr llinell yr unigolyn a achosodd y tor diogelwch data a / neu gysylltu â thîm cynghori ar achosion Adnoddau Dynol.
Y rheolwr llinell neu dîm cynghori ar achosion Adnoddau Dynol i chwilio drwy eu cofnodion a darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Nodwch, o ran camau gweithredu answyddogol, mae'n annhebygol bod ein cofnodion yn gynhwysfawr.

Ar gyfer camau disgyblu swyddogol, bydd angen i dîm cynghori ar achosion Adnoddau Dynol gael mynediad at bob achos disgyblu i bennu a ddyfynnwyd achos o dor diogelwch data yn yr atgyfeiriad. Ers y cyfnod rhwng mis Awst 2021 a mis Mawrth 2025, cynhaliwyd 74 o achosion disgyblu. Nodwch, mae'n bosibl nad achos o dor diogelwch data yw'r prif reswm dros gymryd camau disgyblu oherwydd ceir yn aml faterion eraill ynghlwm wrth achos yr unigolyn. Gallai hyn olygu bod camau disgyblu wedi'u cymryd mewn perthynas â thor diogelwch data cymharol fach ar y cyd â materion eraill.

Yn sgil fy nehongliad o'ch cwestiynau, rwy'n amcangyfrif y bydd yn cymryd tua 46 awr i gwblhau'r cais.

Fformiwla - (Cyfanswm Amser = Nifer y Tasgau × Hyd y Dasg)

Cyfanswm Amser = 550 o achosion o dor diogelwch data × 5 munud = 2,750 munud
Cyfanswm Amser = 2,750 munud ÷ 60 = **46 awr**

Er mwyn sicrhau bod eich cais o fewn y terfyn addas, awgrymaf eich bod yn cyfyngu cwmpas eich cais, yn arbennig o ran yr wybodaeth y ceisiwyd amdani ynghylch camau a gymerwyd yn erbyn yr unigolyn / unigolion a oedd yn gyfrifol. Mae ffyrdd eraill o leihau'r amser yn cynnwys lleihau'r cyfnod amser.